# rydym yn recriwtio

## uchafbwyntiau y swydd











# Hyfforddwr Ffitrwydd - Clwb Nova

## Gwybodaeth allweddol

Cyflog : £25,545 i £27,803 y flwyddyn (yn amodol ar gymhwysterau)
Oriau : 37 awr yr wythnos
Contract : Parhaol

## Am y Swydd

Fel Hyfforddwr Ffitrwydd, byddwch yn helpu ein Haelodau i gyflawni eu nodau ffitrwydd - ac bydd yn brofiad braf gwneud hynny!

Ni fydd dau ddiwrnod yr un fath yn y swydd hon! Fel gweithwyr ffitrwydd proffesiynol byddwch yn helpu Aelodau i adnabod a chyflawni eu nodau, gyda chyngor perthnasol a chynlluniau hyfforddiant wedi'u teilwra sy'n eu hysbrydoli a'u hysgogi nhw. Byddwch yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hyrwyddo gyda'ch aelodau ac yn gwneud yn siŵr fod gan aelodau lais.

Byddwch yn arwain y sesiynau Hyfforddiant Personol, sefydlu a chynnal dosbarthiadau ffitrwydd, cyflwyno aelodau newydd ac yn gyffredinol yn cynnig profiad ffitrwydd gwych yn gyffredinol. Trwy eich help chi bydd pob aelod yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi, yn gyfforddus ac yn hyderus wrth ddefnyddio ein hoffer o'r radd flaenaf yn ddiogel ac yn effeithiol.

Os nad ydych yn Hyfforddwr Personol Lefel 3 eto, byddwn yn eich cefnogi i gyflawni'r cymhwyster hwn, gyda chyflog yn cynyddu o fewn y band uchod yn unol â hynny.

Rydym yn ymfalchïo yn ein cyfleusterau a'r amgylchedd yr ydym yn ei gynnig i'n cwsmeriaid, felly byddem yn disgwyl i chi ymfalchïo yn y gampfa, gan sicrhau ei fod yn lân, yn daclus ac yn ddiogel i bawb ei defnyddio bob amser.

**Mae'r dogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**



# Hyfforddwr Ffitrwydd - Clwb Nova

## Amdanat Ti

Mae ein person delfrydol yn rhywun sy’n frwdfrydig ac angerddol am les a ffitrwydd, gyda sgiliau pobl wych.

Yn ddelfrydol, bydd gennych gymhwyster Hyfforddiant Personol Lefel 3,a bydd gennych brofiad o gefnogi pobl i gyflawni eu nodau ffitrwydd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan rhai sydd â chymwysterau Hyfforddi Campfa Lefel 2 ac sydd ag angerdd am ffitrwydd.

Byddai profiad o redeg gwersi yn fuddiol ond nid yn hanfodol gan ein bod yn hapus i’ch hyfforddi i arwain y dosbarthiadau yr ydym yn eu cynnig yn ogystal â’ch gwneud yn gymwys i redeg rhai dosbarthiadau penodol.

Mae ein Haelodau a’n cwsmeriaid yn bwysig iawn i ni, felly rydym angen rhywun sy’n gallu tawelu meddyliau pobl, ac sy’n dymuno sicrhau bod profiad pawb yn un gwych trwy’r amser. Credwn fod lles yn golygu meddwl iach yn ogystal â chorff iach felly os ydych yn rhannu’r un meddylfryd ac yn blaenoriaethu mwynhad dros gyfri calorïau yna mi fyddwch yn teimlo’n gartrefol yma!

Rydym wrth ein bodd yn helpu ein staff ddatblygu eu hunain, felly mae’r awydd i ddysgu a datblygu yn hanfodol ar gyfer y rôl.

Bydd angen i chi fod yn hyblyg gyda phatrymau shifft gan fod ein Haelodau yn hoffi hyfforddi rhwng 6am a 9pm. Rydym yn un tîm mawr ac felly’n edrych am rywun sy’n credu mewn ‘gwaith tîm’, mae’n llawer mwy na gair yn unig.



# Hyfforddwr Ffitrwydd - Clwb Nova

## Amdanom ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae HSDdCyf wedi datblygu portffolio o gyfleusterau sy'n arwain y sector, gan gynnwys 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm, 7 darpariaeth bwyd a diod unigryw, 2 atyniad anhygoel a theatr syfrdanol â 1,000 o seddi.

Mae tîm HSDd yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydyn ni'n gweithio i athroniaeth 'un tîm, un cyfrif banc' - rydyn ni i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle rydych chi wedi'ch lleoli. Gyda'n gilydd rydyn ni i gyd yn cyfrannu at wneud HSDdCyf yn llwyddiannus

## Ein Gwerthoedd

- Uchelgais a Thwf
- Ymddiriedolaeth ac Uniondeb
- Rhagoriaeth a Gwydnwch
- Balchder ac Angerdd




# Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr HSDd hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd gostyngedig
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Gwyliau blynyddol yn dechrau ar 26 diwrnod + gwyliau banc (gyda'r cyfle i ennill mwy)
- Cefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiannau gyrfa ac secondiadau
- Amrywiaeth o bolisïau teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith
- Darperir gwisg HSDd

**Lleoliad**: Clwb Nova, Prestatyn

**Dyddiad Cau**: 10 Medi, 2024

**Ymgeisiwch ar ein gwefan:**
https://denbighshireleisure.co.uk/cy/gyrfaoedd/

clwb nova

dll